

Creu Panel *Y Wawr* i Ddathlu'r Aur

RHIANNON PARRY

'MELYN FYDD Y PRIF LIW,' oedd y cyfarwyddyd a dderbyniais (ynghyd â cherdyn lliwiau paent melyn Crown, fel canllaw i mi). Byddai wedi bod yn dda pe bawn wedi cynllunio'r panel o flaen llaw. Dwi'n un wael iawn am fesur, hefyd.

Ond byddaf wrth fy modd yn brodio, a hynny ar ddeunyddiau naturiol fel gwlân, sidan, lliain a chotwm. Dwi yn hoff iawn o gelf gwerin, yn ogystal. A'r hyn sy'n bwysig i mi wrth greu unrhyw beth yw cael mwyniant wrth wneud y gwaith. Mae gormod o bwyslais ar dechneg yn llyffethair i greadigrwydd.

Ni allaf ond ymateb i'm profiad fy hun wrth wneud darn o waith, a cheisio cyfuno delweddau sydd ag ystyr arbennig i mi. Fy ngobaith yw y gall pobl eraill wedyn ymdeimlo â rhywbeth cyffelyb wrth edrych ar y gwaith.

Gan nad oedd gennyf gynllun, rhaid oedd i'r gwaith ddatblygu'n naturiol, wrth i wahanol syniadau, digwyddiadau ac agweddau godi i'r wyneb. Eto, roeddwn am fanteisio ar ddeunyddiau naturiol o Gymru. Roedd ffrind i mi wedi bod yn nyddu gwlân defaid Llŷn, a phenderfynais lifo peth o'r gwlân hwnnw gan ddefnyddio te, coffi, dail tafol, dalan poethion, croen nionod a milddail. Fy mwriad oedd creu 'coeden', trwy ddefnyddio

pwyth gorwedd i sodro'r gwlân yn ei le, gan adael rhai edeifion ohono'n hongian yn rhydd, i ddynodi gwreiddiau'r goeden.

Mae i goeden ddail. Penderfynais wneud haen o ffelt allan o gnu dafad Gymreig. Mater hawdd oedd torri'r ugeiniau o ddail allan o'r

Rhiannon yn astudio gwlân ar gyfer ffeltio'r dail Llund/ Hywel Evans



haen honno, a brodio arnynt deitlau erthyglau a ymddangosodd yn y cylchgrawn dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gan ddefnyddio pwyth cengl (*stem stitch*) ac edeifion sidan bob tro.

Roeddwn hefyd am roi sylw i'r Llywyddion Anrhydeddus – Sylwen Davies a'i gweledigaeth dawel, a'r ddiweddar Marged Jones, a'i cholofn, *Dewch i Mewn*. Roedd Marged yn synio am y mudiad fel cartref ag iddo aelwyd groesawus. Brodiais enwau'r cyn-olygyddion hefyd, gan gychwyn gyda sylfaenydd y cylchgrawn, Zonia Bowen. Roeddwn am enwi rhai o'r golygyddion diweddarach hefyd, er y gwyddwn nad oeddent yn chwennych sylw o'r fath. A rhaid oedd gwneud y gosodiad – *Dyma'r Unig Gylchgrawn Cymraeg i Ferched yn y Byd*. Mae'n rhyfeddod ac yn dristwch ein bod ni, yn yr unfed ganrif ar hugain, oherwydd diffyg nawdd, yn gorfod bodloni ar gynhyrchu'r cylchgrawn arbennig hwn gartref yn ein parlyrau ffrynt.

Ac yna neges Gwyneth Evans, y Llywydd Anrhydeddus cyntaf – *Y mae digon o bethau yn bygwith ein hiaith a'n diwylliant ... heb i ni chwilio am elynion ymhlith ein gilydd*. Mae'r rhai hynny ohonoch a fu'n aelodau o'r mudiad o'r cychwyn cyntaf yn deall arwyddocâd y dyfyniad hwn.

Cefais fwyniant anghyffredin yn creu'r panel. Ac yn falch ei fod wedi cael crystal derbyniad.

